Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (TCA)

2017-18

Adroddiad y Prif Arholwr

Yn ystod trydedd flwyddyn y Dystysgrif, collwyd arbenigedd Dr Gwennan Schiavone wrth iddi newid swydd. Bu'n allweddol yn y gwaith o sefydlu'r Dystysgrif a'i llywio drwy'r blynyddoedd cyntaf hyn. Penodwyd Rhian Jones yn ei lle i barhau â'r gwaith.

Bu Joanna Evans a Catrin Williams yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain y gwaith gweinyddol ar y Dystysgrif eleni eto. Rwy'n arbennig o ddyledus i Joanna Evans am baratoi'r holl ddata a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Bu'r cydweithio â Manon Wyn Siôn, Cydlynydd Cenedlaethol Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd, a Marged Cartwright, Kelly Morgan a Geraint Williams, y cymedrolwyr uwchradd, yn hwylus iawn eleni eto. Rwy'n pwyso'n drwm ar arbenigedd pawb.

Trefnodd Manon Wyn Siôn y daith gymedroli uwchradd yn ddeheuig fel arfer, felly hefyd trefnodd Catrin Williams o'r CCC y daith gynradd ar sail data cydlynwyr y tair canolfan hyfforddi, Gwawr Maelor, Sioned Dafydd a Linda Davies. Cafwyd croeso gan y mentoriaid iaith yn yr ysgolion uwchradd a'r mentoriaid dosbarth yn yr ysgolion cynradd. Yn ogystal, daeth cydlynwyr y tair canolfan a rhai o diwtoriaid Canolfan y Gogledd i gwrdd â'r cymedrolwyr.

Gan ddilyn argymhelliad y llynedd, penodwyd un marciwr, Cris Dafis, i farcio papurau'r arholiad ysgrifenedig i gyd eleni. Gwnaeth hynny'n hynaws ac yn ddidrafferth, gan hwyluso'r broses gymedroli'n enfawr.

Gwaith gweinyddol a hyfforddiant
Cynhaliwyd un cyfarfod y tymor drwy gyswllt fideo i drafod gweithdrefnau, gyda chynrychiolwyr y canolfannau, y cymedrolwr cynradd, Manon Siôn ar ran y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg a'r prif arholwr yn bresennol.

Cynhaliwyd sesiwn hanner diwrnod o hyfforddiant yr un i diwtoriaid uwchradd a chynradd ar y papur arholiad.

Paratowyd ap gan Ganolfan Peniarth gydag ymarferion iaith addas i baratoi'r hyfforddeion at yr Addysgu Ymarferol a'r Arholiad Ysgrifenedig.

Paratôdd Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd, ddogfen, 'Camau i'w hystyried wrth ystyried hyrwyddo sgiliau llythrennedd yn drawsgwricwlaidd' sy'n grynodeb gwerthfawr o'r holl faterion perthnasol i Ran 2 yr Addysgu Ymarferol, sef Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr. Yn ogystal, paratôdd y prif arholwr ddogfen 'Disgrifiad o wallau iaith hyfforddeion' sy'n manylu ar y llithriadau/gwallau iaith sy'n nodweddu hyfforddeion ar wahanol ystodau marciau, a hynny er mwyn hwyluso'r gwaith o asesu Safon Llythrennedd Personol, sef Rhan 1 yr Addysgu Ymarferol.

Cynhaliwyd dau arholiad ddiwedd mis Ebrill, un cynradd ac un uwchradd o ran enw, er eu bod yn addas i'r ddwy garfan o hyfforddeion. Felly bu'n bosibl i hyfforddeion o'r naill garfan sefyll arholiad y llall pan gododd anawsterau. Marciodd Cris Dafis a'r prif arholwr chwe phapur 'hadu' er mwyn cytuno ar safonau cyn i'r gwaith marcio ddechrau.

Anfonwyd holiadur at ymgeiswyr y Dystysgrif eleni a derbyniwyd 61 ymateb. O ganlyniad i'r ymatebion, penderfynwyd y byddir yn sicrhau bod gwybodaeth lawn yn cael ei darparu i fyfyrwyr wrth iddynt ddechrau'r cwrs TAR; y paratoir gwybodaeth i diwtoriaid PAP1; y codir ymwybyddiaeth o adnoddau'r Dystysgrif ymysg athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sydd eisoes yn eu swyddi, ac y byddir yn trafod dyddiad addas i'r arholiad ysgrifenedig cynradd.

Niferoedd cyffredinol

Safodd cyfanswm o 161 o hyfforddeion y Dystysgrif eleni, sy'n gwymp o 18 o'i gymharu â niferoedd y llynedd.

Yn dilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, newidiwyd y drefn eleni o ran y canlynol:

- Ni osodir hyfforddeion mewn 'dosbarth' (annigonol, digonol, da, rhagorol) am eu perfformiad yn y Dystysgrif bellach, ond cânt farc yn unig. Golyga hyn fod pob hyfforddai'n ennill y Dystysgrif, er y gall y marc fod o dan y marc 'llwyddo' traddodiadol, sef 50%.
- Yn y gorffennol, nid oedd hyfforddeion yn ennill Tystysgrif os nad oeddynt yn cyrraedd trothwy 50% ym mhob un o'i dwy elfen, h.y. yr Addysgu Ymarferol a'r Arholiad Ysgrifenedig. Eleni, mae pob hyfforddai'n ennill y Dystysgrif ar sail cyfartaledd y marciau am y ddwy elfen hyn.
- Nodir y marc cyfartalog ar bob Tystysgrif er bod modd i unigolion ofyn am farciau unigol ar ôl derbyn eu canlyniadau.

Dengys y tabl hwn y **dyfarniadau terfynol cyffredinol dros y cynradd a'r uwchradd**, yn genedlaethol a fesul canolfan dros y Dystysgrif gyfan.

Canrannau Cenedlaethol – Cyffredinol

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	3	2%	0	0%	3	6%	0	0%
50-59	48	30%	17	37%	19	40%	12	18%
60-69	72	45%	19	41%	16	33%	37	55%
70-84	34	21%	10	22%	7	15%	17	25%
85 ac uwch	4	2%	0	0%	3	6%	1	1%
CYFANSWM	**161**		**46**		**48**		**67**	

Dylid nodi, er mai 3 hyfforddai sy'n cael marc o dan 50% eleni, y byddai 8 hyfforddai wedi gwneud hynny o dan yr hen drefn, gan nad ydynt wedi cyrraedd trothwy 50% yn eu papur arholiad.

Yn ogystal eleni, ar gais mentoriaid iaith uwchradd yn bennaf y llynedd, cyflwynwyd categori 85 marc ac uwch er mwyn dynodi perfformiad eithriadol.

Canrannau Cenedlaethol – Addysgu Ymarferol

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
50-59	46	29%	16	35%	18	38%	12	18%
60-69	60	37%	14	30%	20	42%	26	39%
70-84	48	30%	13	28%	8	17%	27	40%
85 ac uwch	7	4%	3	7%	2	4%	2	3%
CYFANSWM	**161**		**46**		**48**		**67**	

Canrannau Cenedlaethol – Arholiad Ysgrifenedig

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	15	9%	3	7%	8	17%	4	6%
50-59	58	36%	17	37%	22	46%	19	28%
60-69	54	34%	18	39%	7	15%	29	43%
70-84	31	19%	8	17%	9	19%	14	21%
85 ac uwch	3	2%	0	0%	2	4%	1	1%
CYFANSWM	**161**		**46**		**48**		**67**	

Gwelir bod canran uwch o hyfforddeion yn genedlaethol yn cyrraedd 70+ yn yr Addysgu Ymarferol (34%) nag sy'n cyrraedd yr un ganran yn yr Arholiad Ysgrifenedig (21%).

1. UWCHRADD

Safodd 75 o hyfforddeion uwchradd y Dystysgrif eleni, sy'n gynnydd bychan o'i gymharu â 73 o hyfforddeion y llynedd.

Fel arfer, yn rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg, cafodd pob un o'r hyfforddeion hyn:

- sesiynau Gloywi Iaith yn eu canolfannau eu hunain
- dau gwrs undydd (yn Aberystwyth)
- hyfforddiant ac adroddiadau ar arsylwadau gwersi gan fentoriaid iaith arbenigol (aelodau o adrannau Cymraeg fel arfer) yn ystod eu dau gyfnod o brofiad ysgol.

Cynhaliwyd 8 sesiwn hyfforddiant gan Manon Siôn, Cydlynydd y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ar gyfer y mentoriaid. Dylid nodi bod gan y mentoriaid iaith gysylltiad agos, nid yn unig â Chydlynydd y Cynllun Gwella, ond hefyd â'r tiwtoriaid iaith yn y canolfannau, felly mae hyn yn fodd o fonitro safonau.

Dyma dabl sy'n dangos y **canrannau uwchradd terfynol dros y Dystysgrif gyfan**, yn genedlaethol a fesul canolfan ac yn genedlaethol:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	2	3%	0	0%	2	7%	0	0%
50-59	29	39%	10	56%	12	41%	7	25%
60-69	30	40%	5	28%	10	34%	15	54%
70-84	12	16%	3	17%	4	14%	5	18%
85 ac uwch	2	3%	0	0%	1	3%	1	4%
CYFANSWM	**75**		**18**		**29**		**28**	

Sylwadau cyffredinol:

- O'i gymharu â'r llynedd, mae llai o hyfforddeion yn y categori 70+, a mwy o hyfforddeion yn y categori 60+.
- Mae canran yr hyfforddeion sy'n cael rhwng 50 a 59 marc yn dal i fod oddeutu 40% o'r garfan gyfan.
- Ymddengys fod carfan gref yng Nghanolfan y Gogledd eleni, gyda 76% o'r hyfforddeion yn ennill dros 60+.

1.1 Asesiad o allu'r hyfforddeion uwchradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Safon llythrennedd personol**
- **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr**

Cyrhaeddiad yr hyfforddeion uwchradd:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
50-59	30	40%	10	56%	13	45%	7	25%
60-69	30	40%	4	22%	13	45%	13	46%
70-84	12	16%	3	17%	3	10%	6	21%
85 ac uwch	3	4%	1	6%	0	0%	2	7%
CYFANSWM	**75**		**18**		**29**		**28**	

Mae canrannau'r hyfforddeion ym mhob band yn lled debyg i'r llynedd. Eleni, ni welwyd unrhyw batrwm o gymharu marciau'r elfen gyntaf (safon llythrennedd personol) â marciau'r ail elfen (y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr).

Trefniadau'r ymweliadau cymedroli uwchradd

Aeth Manon Siôn, Cydlynydd Cenedlaethol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ati i drefnu taith gymedroli i arsylwi gwers yr un gan 24 hyfforddai o'r garfan o 75 hyfforddai (32%). Fel y llynedd, penderfynwyd ar yr hyfforddeion i'w harsylwi ar sail adroddiadau gwersi ac adroddiadau crynodol y mentoriaid iaith. Roedd yr hyfforddeion a arsylwyd yn cwmpasu ystod lawn y marciau o 50% i 89%. Cymedrolwyd ar y cyd mewn chwe gwers. Y cymedrolwyr a arsylwodd ar wersi'r hyfforddeion oedd:

- Manon Siôn, Cydlynydd Cenedlaethol y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg;
- Marged Cartwright, Kelly Morgan a Geraint Williams a oedd hefyd yn fentoriaid iaith yn eu hysgolion eu hunain;
- Elin Meek, prif arholwr, a arsylwodd wersi gan dri hyfforddai ym mhob canolfan, sef cyfanswm o 9 hyfforddai.

Gwelodd y prif arholwr:

- daenlen lawn o farciau'r hyfforddeion cyn mynd allan i arsylwi;
- adroddiadau o arsylwadau gwersi ac adroddiadau crynodol y mentoriaid iaith ar yr hyfforddeion a gymedrolwyd ganddi cyn mynd allan i arsylwi;
- adroddiadau unigol ar bob un o'r gwersi a welodd y cymedrolwyr eraill (15 i gyd).

Sylwadau cyffredinol am y cymedroli uwchradd:

- Fel y llynedd, wrth gymedroli, daeth yn amlwg fod y cymedrolwyr yn cytuno â marciau'r mentoriaid iaith yn gyffredinol, hynny yw o ran gradd yr hyfforddeion yn y pen draw, er y nodwyd ar dro fod marc fymryn yn hael neu fymryn yn llym. O'r 48 marc yn y daenlen (24 hyfforddai x 2 farc), 6 marc yn unig yr oeddid yn argymell eu newid a fyddai'n symud hyfforddai o un band marciau i fand arall.
- Yn ogystal, daeth hi'n amlwg wrth gymedroli ar y cyd fod y cymedrolwyr yn unfryd unfarn o ran eu hasesiadau.
- Mae hi'n amlwg, felly, fod system mentoriaid iaith y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg yn sicrhau cysondeb wrth asesu'r hyfforddeion.

- Roedd y dystiolaeth a welwyd gan yr hyfforddeion uwchradd, h.y. eu ffeiliau, yn debyg iawn ledled Cymru.
- Cafwyd un enghraifft eleni lle gadawyd hyfforddai gydag athro cyflenwi wrth addysgu gwers a arsylwyd. Effeithiodd hyn yn andwyol ar ddisgyblaeth yn ystod wers.
- Nododd ambell fentor iaith fod y meini prawf yn dueddol o fwrw marciau hyfforddeion yn uwch na'r marc argraff y byddent yn ei roi fel arall.

Argymhellion o ran yr Asesiad o allu'r hyfforddeion uwchradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- Eleni eto, rhaid cyfeirio at y ffaith ei bod hi'n bryder bod 40% o'r hyfforddeion Uwchradd yn y band 50-59 marc. Mae'r rhain yn hyfforddeion a fyddai'n elwa o barhau i gael cymorth iaith yn ystod eu blwyddyn fel athrawon newydd gymhwyso. Fel y nododd un o'r cymedrolwyr, bydd rhai o'r hyfforddeion hyn "yn cael swyddi mewn ysgolion nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg ac efallai mewn sefyllfa ansicr o ran gofyn am gymorth yn yr ysgol".
- Er bod rhywun yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd eithriadol a all godi mewn ysgolion o ddydd i ddydd, dylai aelod o staff yr ysgol sydd naill ai'n fentor iaith neu'n fentor pwnc fod yn bresennol yn y gwersi a arsylwir bob amser.

1.2 Asesiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion uwchradd

Paratowyd un papur ysgrifenedig uwchradd eleni.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion uwchradd yn genedlaethol **yn y papur ysgrifenedig**:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	9	12%	2	11%	6	21%	1	4%
50-59	28	37%	7	39%	13	45%	8	29%
60-69	24	32%	6	33%	5	17%	13	46%
70-84	12	16%	3	17%	4	14%	5	18%
85 ac uwch	2	3%	0	0%	1	3%	1	4%
CYFANSWM	**75**		**18**		**29**		**28**	

O'i gymharu â charfan y llynedd, lle roedd 31% wedi cael 70+, ymddengys fod carfan eleni at ei gilydd yn wannach (19% wedi cael 70+). Mae canran uwch o hyfforddeion y Gogledd (68%) wedi cyrraedd 60+ na'r canolfannau eraill, a chanran uwch o hyfforddeion y De-ddwyrain (66%) wedi cael marciau 59 ac is.

O ran y sampl cymedroli, gwelodd y prif arholwr oddeutu 20% o'r sgriptiau. Roedd y rhain yn cynnwys pob sgript o dan 50%, pob un o'r sgriptiau rhwng dwy safon a sampl cyffredinol o sgriptiau ar bob safon gan y marciwr.

Sylwadau:

- Newidiwyd y meini prawf eleni fel bod y maen prawf blaenorol Ateb gofynion y dasg yn cael ei gwmpasu o dan y maen prawf Egwyddorion Trawsieithu yng nghwestiwn 2 a'r maen prawf Cynnwys yng nghwestiwn 3. Ychwanegwyd set o feini prawf ar gyfer perfformiad 85+ marc.
- Yng nghwestiwn 2 (Trawsieithu) nododd y marciwr fod rhai hyfforddeion wedi colli marciau oherwydd iddynt ysgrifennu brawddegau anghyflawn mewn pwyntiau bwled. Atgoffir hyfforddeion y cânt ddefnyddio pwyntiau bwled, ond bod y rhain ar ffurf brawddegau llawn.
- Nodwyd eleni eto nad oedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio Cysill yng nghwestiynau 2 a 3 ac iddynt golli marciau o'r herwydd.

Argymhellion

Nid oes argymhellion penodol ynghylch y papur arholiad ysgrifenedig uwchradd eleni. Ni soniodd unrhyw hyfforddeion uwchradd a ymatebodd i'r holiadur fod y dyddiad yn anghyfleus.

2. CYNRADD

Safodd 86 o hyfforddeion cynradd y Dystysgrif eleni, sy'n gwymp o 19 o'i gymharu â nifer y llynedd.

Cafodd pob un o'r hyfforddeion hyn:

- sesiynau Gloywi Iaith yn eu sefydliadau eu hunain.

Dyma dabl sy'n dangos y **dyfarniadau cynradd terfynol dros y Dystysgrif gyfan**, yn genedlaethol a fesul canolfan:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	1	1%	0	0%	1	5%	0	0%
50-59	19	22%	7	25%	7	37%	5	13%
60-69	42	49%	14	50%	6	32%	22	56%
70-84	22	26%	7	25%	3	16%	12	31%
85 ac uwch	2	2%	0	0%	2	11%	0	0%
CYFANSWM	**86**		**28**		**19**		**39**	

Mae'r garfan gynradd eleni wedi perfformio'n well na'r llynedd, gyda 77% yn ennill marciau 60+.

2.1 Asesiad o allu'r hyfforddeion cynradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- **Safon llythrennedd personol**
- **Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr**

Cyrhaeddiad yr hyfforddeion cynradd:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	0	0%	0	0%	0	0%	0	0%
50-59	16	19%	6	21%	5	26%	5	13%
60-69	30	35%	10	36%	7	37%	13	33%
70-84	36	42%	10	36%	5	26%	21	54%
85 ac uwch	4	5%	2	7%	2	11%	0	0%
CYFANSWM	**86**		**28**		**19**		**39**	

Mae canran yr hyfforddeion sy'n ennill marciau 70+ dipyn yn uwch eleni (47%) na'r llynedd (25%). Diddorol yw nodi'r gwahaniaeth mawr rhwng canran yr hyfforddeion cynradd (19%) ac uwchradd (40%) sy'n cael marciau yn y band 50–59.

Trefniadau'r ymweliadau cymedroli cynradd

Arsylwodd Marian Thomas, y cymedrolwr cynradd, wersi gan 19 hyfforddai (22% o'r garfan o 86 o fyfyrwyr). Arsylwodd y prif arholwr 8 o'r gwersi hynny ar y cyd â hi.

- 4 yng Nghanolfan y De-ddwyrain (2 gyda'r prif arholwr). Methwyd gweld un hyfforddai oherwydd bod cyfweliad ganddi.
- 7 yng Nghanolfan y De-orllewin (3 gyda'r prif arholwr).
- 8 yng Nghanolfan y Gogledd (3 gyda'r prif arholwr). Methwyd gweld un hyfforddai oherwydd bod ganddi gyfweliad.
- Er bod yr hyfforddeion hyn yn amlygu ystod o farciau (o 53% i 85%), ni welwyd hyfforddeion yn yr ystod 50– 59% yng Nghanolfan y Gogledd. Nododd y cydlynydd yno y buasai'n gwerthfawrogi gallu cynnig enwau nifer o hyfforddeion o bob ystod y flwyddyn nesaf ar sail eu perfformiad cyffredinol, nid ar sail marciau amodol y Dystysgrif. Dywedwyd bod nodi dyddiad cyflwyno'r marciau amodol sy'n addas i bob canolfan yn anodd oherwydd y patrymau gwahanol o ran strwythur wythnosau profiad ysgol y myfyrwyr sydd yn y canolfannau.

Sylwadau am y cymedroli cynradd

- O'r 38 o farciau a gymedrolwyd (19 hyfforddai x 2 marc), roedd y cymedrolwr cynradd (a'r prif arholwr) yn unfryd o'r farn y dylid newid 28 ohonynt; felly â 10 marc yn unig yr oeddynt yn cytuno'n llwyr.
- Byddai'r cymedrolwr yn argymell codi 8 marc (gyda 2 o'r rhain yn golygu bod yr hyfforddeion yn symud i fand marciau uwch), a gostwng 20 marc (gyda 7 o'r rhain yn golygu bod yr hyfforddeion yn symud i fand marciau is).
- Ar y cyfan, roedd y cymedrolwr yn gostwng mwy o farciau Rhan 2: Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr. Siomwyd y cymedrolwr a'r prif arholwr gan ymateb rhai hyfforddeion i'r

cymhwyso er enghraifft, ni chynhwyswyd geirfa, ac yn sicr nid ystyriwyd y patrymau iaith i'w hymarfer i alluogi disgyblion i gyflawni tasgau.

- Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r cymedrolwr asesu Rhan Un: Safon llythrennedd personol yn amrywio mwy eleni o ganolfan i ganolfan, o ran swmp ac amseru.
    - Canolfan y Gogledd: gwelwyd rhywfaint o waith myfyrwyr ar One Drive (cynllun peilot) wrth ymweld â'r ysgolion.
    - Canolfan y De-ddwyrain: yn yr ystafelloedd dosbarth, gwelwyd ffeiliau'n cynnwys cynlluniau gwaith, adnoddau a sylwadau adfyfyriol (mewn llawysgrifen yn aml, a oedd yn profi i ba raddau roedd yr hyfforddeion yn dibynnu ar Cysill). Yn ogystal gwelwyd enghreifftiau o draethodau hir yr hyfforddeion a oedd yn dangos eu gallu i ysgrifennu Cymraeg mewn cyd-destun mwy ffurfiol. Roedd hyn yn gymorth mawr i'r cymedrolwyr ddod i benderfyniad ynghylch addasrwydd y marc.
    - Canolfan y De-orllewin: anfonwyd detholiad o ddogfennau electronig yn cynnwys cynlluniau gwaith a sylwadau adfyfyriol ychydig cyn y cyfnod arsylwi, ar gais y cymedrolwr a'r prif arholwr.
- Yn ôl yr hyn a ddeallwyd, mae'r drefn o bennu marciau'n dal i amrywio rhwng y tair canolfan.

Argymhellion o ran yr Asesiad o allu'r hyfforddeion cynradd i addysgu'n ymarferol trwy gyfrwng y Gymraeg

- Mae'r tair canolfan yn cynnal sesiynau hyfforddi mentoriaid dosbarth yn anghenion y dystysgrif. Serch hynny, gwelir o'r sylwadau am y cymedroli fod mwy o anghysondeb o ran y safonau yn y cynradd na'r uwchradd. Cred y prif arholwr mai oherwydd nad oes mentoriaid iaith mae hyn. Felly mae angen ystyried pa gamau y gellir eu gwneud i unioni hyn. Gan fod y marciau a bennwyd gan y canolfannau'n sefyll (h.y. nid oes gan y cymedrolwr a'r prif arholwr unrhyw ddylanwad o ran eu newid), mae'n bwysig cael mwy o gysondeb er mwyn sicrhau hygrededd y Dystysgrif.
- Fel y nodwyd y llynedd a'r flwyddyn flaenorol, byddai'n dda sefydlu arferion cyffredin ledled y tair canolfan o ran pwy sy'n pennu marciau hyfforddeion am yr elfen hon o'r Dystysgrif. Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, yn ddelfrydol, y tiwtor coleg ar y cyd â'r mentor dosbarth ddylai wneud hyn, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn atal hyn rhag digwydd. Cydnabyddir fodd bynnag nad yw gweithdrefnau'r tair canolfan yn unffurf wrth asesu hyfforddeion TAR yn gyffredinol, felly efallai y disgwylir gormod yn hyn o beth.
- Mae angen trafodaeth â'r tair canolfan ynghylch y dystiolaeth y disgwylir i'r hyfforddeion ei dangos i'r cymedrolwr. Cafwyd awgrym mai nodiadau personol i'r hyfforddeion yn unig yw'r cynlluniau gwersi, er enghraifft, ac y dylid cyflwyno'r adnoddau i'r disgyblion yn unig. Serch hynny, o safbwynt y cymedrolwr, gorau po fwyaf o dystiolaeth ysgrifenedig y gellir ei gweld er mwyn bod yn gwbl deg a sicr wrth bennu'r marc am Rhan 1: Safon llythrennedd personol.

2.2 Asesiad o sgiliau Cymraeg ysgrifenedig yr hyfforddeion cynradd

Paratowyd un papur ysgrifenedig cynradd eleni.

Dyma'r canrannau sy'n dangos cyrhaeddiad yr hyfforddeion cynradd yn genedlaethol **yn yr arholiad ysgrifenedig**:

	Cenedlaethol		De-orllewin		De-ddwyrain		Gogledd	
Marc o dan 50	6	7%	1	4%	2	11%	3	8%
50-59	30	35%	10	36%	9	47%	11	28%
60-69	30	35%	12	43%	2	11%	16	41%
70-84	19	22%	5	18%	5	26%	9	23%
85 ac uwch	1	1%	0	0%	1	5%	0	0%
CYFANSWM	**86**		**28**		**19**		**39**	

Mae'r canlyniadau eleni'n lled debyg i'r llynedd. Gwelir bod canrannau'r carfannau cynradd ac uwchradd yn yr Arholiad ysgrifenedig yn lled debyg. Er enghraifft, mae'r ganran 70+ yn yr Arholiad ysgrifenedig nes yn y cynradd (23%) a'r uwchradd (19%) na'r hyn a welwyd yn yr Addysgu Ymarferol, felly hefyd y ganran sy'n ennill hyd at 59 marc (42% cynradd; 49% uwchradd).

O ran y sampl cymedroli, gwelodd y prif arholwr oddeutu 20% o'r sgriptiau. Roedd y rhain yn cynnwys pob sgript o dan 50%, pob un o'r sgriptiau rhwng dwy safon a sampl cyffredinol o sgriptiau ar bob safon gan y marciwr.

Sylwadau:

- Newidiwyd y meini prawf eleni fel bod y maen prawf blaenorol Ateb gofynion y dasg yn cael ei gwmpasu o dan y maen prawf Egwyddorion Trawsieithu yng nghwestiwn 2 a'r maen prawf Cynnwys yng nghwestiwn 3, ac ychwanegwyd set o feini prawf ar gyfer perfformiad 85+ marc.
- Yng nghwestiwn 2 (Trawsieithu) nododd y marciwr fod rhai hyfforddeion wedi colli marciau oherwydd iddynt ysgrifennu brawddegau anghyflawn mewn pwyntiau bwled. Atgoffir hyfforddeion y cânt ddefnyddio pwyntiau bwled, ond bod y rhain ar ffurf brawddegau llawn.
- Nodwyd eleni eto nad oedd rhai ymgeiswyr yn defnyddio Cysill yng nghwestiynau 2 a 3 ac iddynt golli marciau o'r herwydd.

Argymhellion

Nid oes argymhellion penodol ynghylch y papur arholiad ysgrifenedig cynradd eleni, ac eithrio dyddiad yr arholiad, o bosibl. Nododd rhai hyfforddeion cynradd a ymatebodd i'r holiadur fod y dyddiad yn anghyfleus "ynghanol y profion cenedlaethol, yr ymweliadau ysgol a'r traethawd hir". Trafodir hyn ym Mwrdd Prosiect y Dystysgrif.

Sylwadau i gloi

Mae'r Dystysgrif yn ennill ei phlwyf ac yn cael ei derbyn gan yr hyfforddeion yn rhan annatod o'u cymhwyster fel darpar athrawon. Dywedodd llawer o hyfforddeion wrth ymateb i'r holiadur, a'r rhai yr arsylwyd eu gwersi, fod y ddarpariaeth gloywi iaith sydd ynghlwm wrth y Dystysgrif wedi bod o fudd mawr iddynt, yn enwedig os nad oeddynt wedi cael unrhyw gysylltiad â'r Gymraeg ers gadael yr

ysgol uwchradd, neu os nad oeddynt wedi ysgrifennu llawer o Gymraeg yn estynedig ers sefyll arholiad TGAU Cymraeg Iaith.

Fel y nodwyd yng nghorff yr adroddiad, mae angen cysoni rhai gweithdrefnau o hyd, yn enwedig yn y sector cynradd. Ar hyn o bryd buddsoddir llawer o ymdrech, amser ac arian yn y drefn gymedroli. Gan nad oes gan y cymedrolwyr unrhyw ddylanwad o ran newid marciau, mae angen bod â ffydd lwyr yn y gweithdrefnau, a hynny er mwyn sicrhau hygrededd y Dystysgrif.

Elin Meek
21 Mehefin 2018

ATODIAD

1. UWCHRADD

Dyma rai o'r **nodweddion rhagorol** a arsylwyd yn y gwersi:

- tystiolaeth o gynllunio manwl
- paratoi llawer o adnoddau gwreiddiol gogyfer â'r wers
- cyfarwyddiadau clir ac amseru pendant i'r tasgau
- gafael gadarn ar derminoleg bynciol
- cyflwyno yn y cywair priodol ar gyfer oed a gallu'r disgyblion
- defnyddio'r bwrdd gwyn yn bwrpasol er mwyn rhoi fframiau ieithyddol
- termau allweddol ar fatiau iaith wedi'u didoli yn ôl categorïau: Da / Da iawn / Gwych – er mwyn annog y mwyaf galluog i ddefnyddio termau digon heriol
- darparu taflen ar gyfer asesu cyfoedion a oedd yn cynnwys brawddegau enghreifftiol ardderchog, nid geirfa'n unig.

Dyma ddetholiad o'r **targedau ieithyddol** a nodwyd sawl tro gan y cymedrolwyr:

- arafu'r cyflwyno fel bod yr ynganu'n fwy eglur – roedd tuedd eleni i nifer o hyfforddeion ruthro wrth gyflwyno
- defnyddio Cysill, ap Geiriaduron, ap treigladau wrth greu adnoddau i ddysgwyr ac er mwyn codi safon iaith bersonol, e.e. i wirio cenedl enwau er mwyn sicrhau treiglo cywir a rhifolion cywir
- prawf ddarllen adnoddau
- sicrhau bod hyfforddeion yn gwybod sut mae rhoi acenion ar lythrennau
- darparu cymorth ieithyddol penodol i'r dasg, nid cymorth generig, gyda chystrawennau, nid geirfa'n unig
- defnyddio llythrennau bach yn hytrach na phrif lythrennau wrth nodi geirfa
- hepgor cyfieithiadau Saesneg gydag eitemau o eirfa fel bod y disgyblion yn cael eu gorfodi i ddarllen yr esboniadau
- gwneud defnydd bwriadol o lythrennedd er mwyn hyrwyddo'r wybodaeth yn y pwnc.

2. CYNRADD

Dyma rai o'r **nodweddion rhagorol** a arsylwyd yn y gwersi:

- cyfoethogi geirfa
- ymarfer patrwm
- cwestiynu effeithiol dros ben – ymestyn y goreuon trwy holi'n ehangach
- cadarnhau'r treigladau'n barhaus trwy ailadrodd
- gwrando ar atebion a'u hailadrodd yn gywir - a gofyn i'r disgyblion ailadrodd y frawddeg ar y cyd yn aml.
- cofrestru effeithiol dros ben, dilyn arfer yr athrawes o amrywio'r cwestiynau fel bod angen i'r disgyblion amrywio eu hatebion cadarnhaol a negyddol, e.e. *Ydy Jade a Beca yma? Ydy Jenson yma? Wyt ti Ffion yma?*
- ysgrifennu sylwadau adeiladol ar waith disgyblion
- gwerthuso effeithiol â sylwadau a oedd yn ymateb yn briodol yn erbyn y deilliannau dysgu

Dyma ddetholiad o'r **targedau ieithyddol** a nodwyd sawl tro gan y cymedrolwr:

- sicrhau bod adnoddau i ddysgwyr yn gwbl gywir
- cynllunio i gadarnhau ambell batrwm/gystrawen ymhob gwers
- cynllunio i ymgorffori ambell briod-ddull i gyfoethogi iaith yr hyfforddai ac iaith y dysgwyr
- cynllunio i nodi ambell gwestiwn caeedig yn y canllaw i gynorthwywyr er mwyn ymarfer ymateb yn gywir
- sicrhau cysondeb a gwirio cenedl enwau'r geiriau y byddir yn eu defnyddio mewn gwersi ymlaen llaw
- osgoi cyfieithu geirfa
- defnyddio llythrennau bach yn hytrach na phrif lythrennau wrth nodi geirfa
- llefaru'n fwy pwyllog; seinio geiriau'n gadarnach; modelu patrymau'n eglur
- canolbwyntio ar ddefnyddio iaith ychydig yn fwy ffurfiol o ran ffurfiau'r ferf a'u llefaru'n llawn – *Beth ydych chi'n...?* nid *Beth y'ch chi'n ...?*
- sicrhau bod y treigladau'n fwy cyson gywir
- cynllunio i sgwrsio mwy a dramateiddio'r darllen a'r holi
- defnyddio Cysill drwyddi draw
- arddangos lefel uwch o broffesiynoldeb drwy wirio gwaith yn drylwyr
- paratoi adnoddau i sgaffaldio'r dysgwyr
- amrywio geiriau o ganmoliaeth fwyfwy
- parhau i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd cywirdeb a hunangywiro.